***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3182

## Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002

**Amcanion ansawdd aer ar gyfer bensen, carbon monocsid a phlwm**

**2.**—(1) Diwygir yr Atodlen i Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn y Tabl yn Rhan I o'r Atodlen—

(a) ychwanegwch res arall sy'n ymwneud â bensen, ac

(i) yn y golofn sy'n dwyn y teitl "Sylwedd/ Lefelau Amcanion Ansawdd Aer" rhowch "Bensen: 5 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr blynyddol";

(ii) yn y golofn sy'n dwyn y teitl "Y dyddiad erbyn pryd mae'n rhaid cyflawni'r amcan" rhowch "31 Rhagfyr 2010"; a

(b) yn y rhes sy'n ymwneud â charbon monocsid, a'r golofn sy'n dwyn y teitl "Sylwedd/ Lefelau Amcanion Ansawdd Aer" rhowch "10" yn lle "11.6" a rhowch "dyddiol uchaf" ar ôl "cymedr 8 awr cyfredol".

(3) Yn Rhan II (Dehongli) o'r Atodlen—

(a) yn lle paragraff 2 (sy'n ymwneud â chyfrifo cymedr 8 awr cyfredol) rhowch—

"**2.**—(1) Cymedr a gyfrifir ar sail ddyddiol yw cymedr 8 awr cyfredol dyddiol uchaf. Yr uchaf o'r cymedrau 8 awr cyfredol sy'n dod i ben yn ystod y diwrnod hwnnw yw'r cymedr 8 awr cyfredol dyddiol uchaf ar gyfer sylwedd penodol mewn lleoliad penodol ar gyfer diwrnod penodol.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), cymedr a gyfrifir yn ôl yr awr, gan ildio un cymedr 8 awr cyfredol yr awr, yw "cymedr 8 awr cyfredol". Y cymedr 8 awr cyfredol ar gyfer y sylwedd perthnasol yn y lleoliad perthnasol ar gyfer awr benodol yw cymedr y cymedrau yn ôl yr awr ar gyfer y sylwedd yn y lleoliad ar gyfer yr awr honno a'r 7 awr flaenorol."

(b) ym mharagraff 3 (sy'n ymwneud â chyfrifo cymedr blynyddol yn achos plwm etc.)—

(i) dilëwch "ac" yn is-baragraff (1)(b);

(ii) ar ôl "honno" yn is-baragraff (1)(c) rhowch—

"; ac

(ch) o ran bensen, naill ai cymedr y lefelau dyddiol ar gyfer y flwyddyn honno neu gymedr y cymedrau yn ôl yr awr ar gyfer y flwyddyn honno"; a

(iii) yn lle is-baragraff (4) rhowch—

"(4) At ddibenion unrhyw gyfrifiad o'r cymedr blynyddol ar gyfer bensen ar sail cymedr y lefelau dyddiol, y lefel ddyddiol ar gyfer bensen mewn lleoliad penodol ar ddiwrnod penodol yw'r lefel lle cofnodir bod bensen yn bresennol yn yr aer yn y lleoliad hwnnw yn ystod y pythefnos y digwydd y diwrnod ar sail sampl barhaus o'r aer a gymerir drwy gydol y pythefnos hwnnw (gan briodoli'r un lefel ddyddiol felly i bob diwrnod yn y pythefnos)."

(**1**) O.S. 2000/1940 (Cy. 138).

(c) ym mharagraff 4 (sy'n ymwneud â chyfrifo cymedr yn ôl yr awr), yn lle'r ail frawddeg rhowch—

"Y cymedr yn ôl yr awr ar gyfer sylwedd penodol mewn lleoliad penodol ar gyfer awr benodol yw cymedr y lefelau a gofnodir ar gyfer y sylwedd hwnnw yn y lleoliad hwnnw:

(a) yn achos bensen, ar fynychder o nid llai nag unwaith yn ystod yr awr; a

(b) yn achos carbon monocsid, nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid, ar fynychder o nid llai nag unwaith bob 10 eiliad yn ystod yr awr."